CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH



LLun / Photo: Wildlife Trust West Wales

# Pryf Lladd Cacynaidd,

*Asilus crabroniformis*

## Disgrifiad / Ecoleg

Mae'r pryf lladd cacynaidd yn bryf mawr gydag abdomen melyn. Mae'r oedolion yn hedfan o ddiwedd mis Gorffennaf tan ddiwedd mis Medi, gyda'r niferoedd yn eu hanterth ym mis Awst. Mae'n byw ar laswelltir a rhostir heb ei wella ac sy'n cael ei bori gan wartheg a cheffylau, yn ne Lloegr a Chymru, gan fwydo ar geiliogod rhedyn a chwilod y dom yn bennaf. Mae'n cael ei gysylltu'n gryf gyda phresenoldeb dom gwartheg a cheffylau ac mae pryfed benywaidd yn dodwy eu hwyau ar ddom sy'n pydru. Mae ecoleg larfau'r pryf lladd cacynaidd yn parhau i fod yn aneglur ond mae'n debygol eu bod yn bwydo ar larfau chwilen y dom.

## Dosbarthiad yng Ngheredigion

Mae gan y pryf lladd cacynaidd ddosbarthiad hynod o gyfyngedig yng Ngheredigion ac mae wedi cael ei gofnodi mewn 6 safle yn unig er 2000. Mae'n debygol ei fod wedi cael ei dan-gofnodi. Mae wedi dioddef dirywiad yng ngorllewin Cymru a chofnodwyd rhai safleoedd cyn 1995 nad ydynt yn cynnal y rhywogaeth bellach.


## Ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad y rhywogaeth yng Nghredigion

- Mae plaleiddiaid cyffredin a ddefnyddir i drin da byw fel *avermectins*, yn effeithio ar larfau chwilen y dom, sef bwyd larfau y pryf lladd, gan arafu'r broses o ddadelfennu'r dom.
- Yr arfer o gadw llai o wartheg a cheffylau a chadw defaid yn eu lle, ac nid yw pryfed lladd cacynaidd yn defnyddio dom defaid.

## Beth sy'n cael ei wneud yn lleol?

Mae'r ddau safle pwysicaf (Hen Gilgwyn a Stablau Marchogaeth Pant-y-Gwyfol yn Llanilar) ar gyfer y pryf lladd yng Nghredigion yn cael eu rheoli mewn ffordd sympathetig ar gyfer y rhywogaeth. Cânt eu monitro

SPECIES ACTION PLAN




# Hornet Robberfly,

*Asilus crabroniformis*

## Description / Ecology

The hornet robberfly is a large fly with a yellow abdomen. Adults are on the wing from the end of July to late September, with numbers peaking in August. It lives on cattle and horse grazed unimproved grasslands and heath, in south England and Wales, feeding mainly on grasshoppers and dung beetles It is strongly associated with the presence of cattle and horse dung,and female flies lay their eggs on decaying dung. The ecology of the larvae of hornet robberfly remains unclear but they are likely to feed on dung beetle larvae.

## Distribution in Ceredigion

The hornet robberfly has an extremely limited distribution in Ceredigion and has only been recorded from 6 sites since 2000. It is probably under-recorded. It has suffered a decline in west Wales with some sites recorded before 1995 no longer hosting the species.

## Factors contributing to the decline of the species in Ceredigion

- Commonly used pesticides for treating livestock, such as avermectins, affect the dung beetle larvae that are food for the robberfly larvae, and slow the breakdown of the dung.
- Reduced keeping of cattle and horses in favour of sheep, the dung of which is not utilised by hornet robberflies.

## What is being done locally?

The two most important sites (Old Cilgwyn and Pant-y-gwyfol Riding Stables in Llanilar) for the robberfly in Ceredigion are under sympathetic management for the species. They are monitored on an ad-hoc basis by Countryside Council for Wales (CCW) and local naturalists. Additional records are collected by the County Invertebrate Recorder and the Wildlife Trust.

yn arbennig gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a naturiolwyr lleol. Cesglir cofnodion ychwanegol gan Gofnodwr Infertebratau y Sir a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

## Targedau

- Cadarnhau safleoedd presennol a phennu gwybodaeth sylfaenol ychwanegol ynghylch dosbarthiad y pryf lladd cacynaidd
- Cynnal neu gynyddu nifer y safleoedd lle y mae'n hysbys y ceir y Pryf Lladd Cacynaidd i 10 erbyn 2010
- Cynnal ac ehangu'r darn o dir a reolir mewn ffordd briodol ar gyfer y Pryf Lladd Cacynaidd erbyn 2010

## Yr hyn y gallwch chi ei wneud i helpu

- Os byddwch yn darganfod pryf lladd cacynaidd mewn unrhyw safle yn y sir, dylech hysbysu'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt (01239 621212) a Chofnodwr Infertebratau y Sir, Adrian Fowles (*a.fowles@ccw.gov.uk)*.
- Os ydych yn berchen ar dir sy'n cael ei bori gan wartheg neu geffylau ac sy'n cynnal y pryf lladd cacynaidd, dylech naill ai ddefnyddio *avermectins* oddi ar y safle gan gadw stoc oddi ar y tir am oddeutu 30 diwrnod, defnyddio *avermectins* y tu allan i'r cyfnod hollbwysig sef diwedd mis Gorffennaf i ddechrau mis Hydref, eu defnyddio yn ôl yr angen yn unig, neu ddefnyddio cynhyrchion dilyngyru amgen sy'n llai niweidiol i'r ffawna dom. Am gyngor pellach, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, CCGC neu'r swyddog bioamrywiaeth.

## Gwybodaeth bellach

- Tabl camau gweithredu (rhan 2 cynllun gweithredu y Pryf Lladd Cacynaidd) am fanylion ynghylch camau gweithredu lleol
- Cynllun Gweithredu y DU ar gyfer y Pryf Lladd Cacynaidd (ar gael ar *www.ukbap.org.uk*)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar *www.ceredigion.gov.uk)*
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain Arfordir a Chefn Gwlad, Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA *saraha@ceredigion.gov.uk* Ffôn 01545 570881

**Prif bartner**: Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran, Aberteifi SA43 2TB 01239 621212 *l.wilberforce@welshwildlife.org*

**Dyddiad y cynllun a diweddariadau:**

**Cynllun gwreiddiol:** Lin Gander, WTSWW, Rhagfyr 2000

**Cynllun diwygiedig:** Lizzie Wilberforce, WTSWW, Chwefror 2006

## Targets

- Confirm existing sites and establish additional baseline information about distribution of hornet robberfly
- Maintain or increase number of known sites with Hornet Robberfly to 10 by 2010
- Maintain and expand area of land managed appropriately for Hornet Robberfly by 2010

## What you can do to help

- If you discover hornet robberfly on any site in the county, alert the Wildlife Trust (01239 621212) and the County Invertebrate Recorder, Adrian Fowles (*a.fowles@ccw.gov.uk*).
- If you own cattle or horse-grazed land supporting the hornet robberfly, either use avermectins off-site and withhold stock for c.30 days, use avermectins outside the critical period of late July to early October, use only when necessary, or use alternative wormers that are less damaging to the dung fauna. For further advice, get in touch with the biodiversity officer, Wildlife Trust or CCW.

## Further information

- Actions table (Hornet Robberfly action plan part 2) for details of local action
- UK Hornet Robberfly Action Plan (available on *www.ukbap.org.uk*)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on *www.ceredigion.gov.uk*)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA *saraha@ceredigion.gov.uk* 01545 570881

**Lead partner:** The Wildlife Trust of South and West Wales, Welsh Wildlife Centre, Cilgerran, Cardigan SA43 2TB 01239 621212 *l.wilberforce@welshwildlife.org*

**Date of plan & updates**:

**Original plan:** Lin Gander, WTSWW, December 2000

**Revised plan:** Lizzie Wilberforce, WTSWW, February 2006